*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **21 Gorffennaf 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar waith is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys. Cafodd hwn ei sefydlu mewn ymateb i'r argymhelliad gan y cyfarfod ar 20 Ionawr 2025 i swyddogion barhau i ddyfeisio a phrofi datrysiadau amgen gyda chyrff cynrychioliadol, o fewn y gyllideb y cytunwyd arni, er mwyn mynd i'r afael â darpariaeth frys mewn lleoliadau gwledig.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ers mis Ebrill 2025, mae is-grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi'i aildrefnu i greu "Grŵp Gweithredu'r Cydgytundeb" (Collective Agreement Implementation Group, CAIG). Daw hyn yn sgil y llwyddiant i gwblhau a llofnodi'r cydgytundeb rhwng y PST ac Undeb y Brigadau Tân, ar lefel ranbarthol a chenedlaethol.

3 Mae'r Grŵp Gweithredu yn dal i gynnwys swyddogion Undeb y Brigadau Tân a swyddogion o'r tîm trawsnewid ond mae wedi cael ei ymestyn i gynnwys personél o'r rhan fwyaf o swyddogaethau i sicrhau y cedwir at y terfynau amser ar gyfer gweithredu a mynegiadau o ddiddordeb ar gyfer prosiectau criwio yn y dyfodol, ymhlith pethau eraill.

4 Mae'r Grŵp Gweithredu yn parhau i weithio gyda'i gilydd i weithredu'r cytundeb a rhoi mesurau ar waith i wella'r hunanwydnwch o fewn y system ddyletswydd bresennol ar draws yr 8 gorsaf Amser Cyflawn/Criw Dydd. Wedi iddo gael ei weithredu, bydd hyn yn caniatáu i swyddi eraill o fewn y nifer presennol o swyddi gael eu hymgorffori mewn cynlluniau peilot i ddarparu model mwy effeithiol ac effeithlon o ddarpariaeth frys ar draws Gogledd Cymru.

5 Mae'r Grŵp Gweithredu yn parhau i weithio fel y gellir gweithredu'r Cydgytundeb o 1 Medi 2025 ar sail cynllun peilot.

6 Mae'r Cydgytundeb wedi'i atodi fel Atodiad A.

## ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO

7 Nid yw'r adroddiad hwn wedi'i gyflwyno i'r Panel Gweithredol na'r Pwyllgor Archwilio.

## ARGYMHELLIAD

8 Bod yr Aelodau'n:

**i) Nodi bod swyddogion wedi parhau i weithio gyda chyrff cynrychioliadol mewn partneriaeth gymdeithasol i ddatblygu ffordd ymlaen gyda'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys;**
**ii) nodi bod cynnydd wedi'i wneud yn sgil y ffaith fod Undeb y Brigadau Tân wedi llofnodi'r Cydgytundeb;**
**iii) gwerthfawrogi ymdrechion parhaus yr holl bartïon i ddatblygu datrysiad a chyflwyno cynllun peilot i ddangos hunangynhaliaeth y lefelau staffio yn y gorsafoedd tân amser cyflawn presennol; a**
**iv) nodi, drwy ddangos yr hunangynhaliaeth hon, bod lle i gyflwyno cynlluniau peilot i ddefnyddio'r cyllidebau ar gyfer y nifer presennol o swyddi i wella'r model darpariaeth frys ar draws rhannau gwledig Gogledd Cymru.**

## CEFNDIR

9 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2023, ymgynghorodd yr Awdurdod â'r cyhoedd ar dri opsiwn posibl ar gyfer darparu ei ymateb brys i gymunedau Gogledd Cymru yn y dyfodol. Gwnaed penderfyniad gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023 i beidio â gweithredu unrhyw un o'r cynigion ar y pryd ond i barhau i weithio ar amrywiadau i'r cynigion. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad, fodd bynnag, yn parhau i fod yn fyw.

10 Cyfarfu Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys 16 o gydweithwyr a oedd yn gweithio ar wahanol lefelau ac mewn gwahanol orsafoedd ac adrannau ledled GTAGC, gan gynnwys cynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân, ar 12 achlysur rhwng Chwefror a Thachwedd 2024, ac yn ystod y cyfnod hwnnw fe wnaethant drafod ac ymchwilio i sawl model ymateb brys.

11 Cafodd sawl opsiwn eu cwmpasu gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen gan gynnwys gwahanol fodelau ar gyfer cynnwys staff ar y rhestr ddyletswyddau mewn ffyrdd gwahanol er mwyn rhyddhau'r swyddi sydd eu hangen i'w lleoli mewn lleoliadau ychwanegol i gefnogi darparu model darpariaeth frys mwy effeithlon ac effeithiol. Roedd hyn yn cynnwys sut y gallai'r trefniadau rhestr ddyletswyddau presennol fod yn fwy hunanwydn. Felly, nid syniad newydd yw'r sail ar gyfer y Cydgytundeb ond un y mae'r is-grŵp wedi ailymweld ag ef cyn i gynigion o'r ymgynghoriad cyhoeddus gael eu hailystyried.

12 Ar 17 Rhagfyr 2024, cyfarfu'r Prif Swyddog Tân a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân ag arweinwyr y ffrydiau gwaith a Chadeirydd Undeb y Brigadau Tân i gadarnhau'r sefyllfa hon ac i ddiolch i bawb a gymerodd ran am eu gwaith caled a'u diwydrwydd.

13 Yn ei gyfarfod ar 28 Ebrill 2025, ailddatganodd yr Awdurdod ei ymrwymiad i ddarparu model darpariaeth frys mwy effeithiol ac effeithlon ar draws Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r risgiau a nodwyd yn ystod yr adolygiad o'r ddarpariaeth frys a oedd yn cydnabod heriau darparu darpariaeth frys mewn ardaloedd gwledig a sut roedd angen addasu'r defnydd o adnoddau heb unrhyw gynnydd i'r gyllideb.

**GWYBODAETH**

14 Mae'r Cydgytundeb wedi diwygio'r amseroedd dechrau a gorffen ar gyfer pob gorsaf 24 awr a Chriw Dydd. Byddai hyn yn dechrau ar 1 Medi 2025, yn amodol ar rywfaint yn rhagor o waith ar y cyd o amgylch polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig rhestr ddyletswydd ac absenoldeb. Bydd y cynllun peilot 12 mis llawn cyntaf gydag 08:00 fel amser cychwyn ar gyfer shifft diwrnod 10 awr yn dechrau ar 1 Ionawr 2026. Byddai hyn yn cyd-fynd â dechrau'r flwyddyn wyliau a byddai'n rhedeg am 24 mis.

15 Anfonwyd memorandwm mewnol at yr holl bersonél gweithredol ym mis Mehefin 2025 yn manylu ar y newidiadau i amseroedd dechrau a gorffen yn unol ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol er mwyn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i bersonél allu gwneud unrhyw drefniadau angenrheidiol. Mae storfa ganolog o wybodaeth a dogfennau canllawiau gan gynnwys Cwestiynau Cyffredin wedi'i chreu gan y Grŵp Gweithredu ar Hwb y Gwasanaeth er budd yr holl bersonél yr effeithir arnynt.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Rhaid i ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys fodloni rhwymedigaethau'r Awdurdod o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. |
| Cyllideb | Rhaid i unrhyw ateb fod o fewn y gyllideb a gymeradwywyd. |
| Cyfreithiol | Amh. |
| Staffio | Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio gyda staff a'u cyrff cynrychioliadol a bydd yn parhau i wneud hynny. Darperir diweddariadau rheolaidd yn y Cyd-bwyllgor Ymgynghori a Negodi a thrwy'r Crynodeb Wythnosol yn ogystal â thrwy ymweliadau â gorsafoedd gan swyddogion. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae Swyddog Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gwasanaeth wedi ymgysylltu â grwpiau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant drwy gydol yr ymgynghoriad. Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys o fewn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol gydag adborth hefyd yn cael ei gasglu ar hyn. |
| Risgiau | Mae'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gwaith y Grŵp Gweithredu a ddaeth yn ei sgil yn ceisio lleihau'r risgiau o beidio â gallu ymateb i argyfyngau yn effeithiol ac yn effeithlon yng nghymunedau Gogledd Cymru. |